BLAENORIAETHAU STRATEGOL 2022 – 2027

Rhagfyr 2022

CYNNWYS

Crynodeb	*2*
Rhagair	*3*
Cyflwyniad	*4*
Ein pwrpas	*7*
Ein ffyrdd o weithio	*8*
Ein gweledigaeth	*8*
Ein cyd-destun allanol	*9*
Ein dull o gyflwyno	*12*
Casgliad	*19*

Crynodeb

Rydyn ni am i ddysgwyr yng Nghymru ddilyn y cymwysterau sydd eu hangen arnyn nhw i'w helpu i symud ymlaen mewn bywyd, dysgu a gwaith.

Dyma'r themâu allweddol a fydd yn sail i'n gwaith:

- ffocws **Gwnaed-i-Gymru** – gan gynnwys sicrhau cynnig cynaliadwy o gymwysterau dwyieithog o ansawdd uchel
- mabwysiadu **ffordd ddeinamig, esblygol** o ymdrin â chymwysterau fel eu bod yn parhau i fod yn gyfoes ac yn berthnasol i gymdeithas fodern
- **rheoli newid ac ymgysylltu â rhanddeiliaid** yn ofalus er mwyn hybu ymrwymiad a chyflawni diwygiadau llwyddiannus
- defnyddio ein dylanwad i hyrwyddo dulliau **asesu modern ac arloesol**
- sicrhau bod lles dysgwyr yn ganolog i'n penderfyniadau

Dros y pum mlynedd nesaf byddwn ni'n gwneud y canlynol:

- cyd-greu **gydag athrawon ac arbenigwyr** amrywiaeth gydlynol a chynhwysol o gymwysterau ar gyfer dysgwyr 14-16 oed **sy'n ailddychmygu cymwysterau TGAU a'r cymwysterau ehangach sy'n cael eu cynnig yn unol â dibenion y Cwricwlwm i Gymru**
- gweithio gyda chyrff dyfarnu a rhanddeiliaid eraill i adeiladu cynnig effeithiol a chynaliadwy o gymwysterau cadarn o ansawdd uchel ar gyfer dysgwyr 16-19 oed a phrentisiaid
- defnyddio ein pwerau a'n dylanwad i annog cyrff dyfarnu i **foderneiddio dulliau asesu** a pharatoi darparwyr dysgu ar gyfer mwy o asesu digidol
- **cefnogi'r system gymwysterau** drwy ganolbwyntio ein cynllun grant yn y ffordd fwyaf effeithiol er mwyn sicrhau cymwysterau dwyieithog lle mae eu hangen fwyaf a sicrhau bod ein dull rheoleiddio yn effeithiol, yn gymesur ac yn briodol

Rhagair

Mae saith mlynedd bellach ers sefydlu Cymwysterau Cymru ac mae llawer iawn wedi newid yn y cyfnod hwnnw. Rydyn ni wedi cryfhau ein safle yn y sector addysg yng Nghymru a thu hwnt. Ochr yn ochr â phartneriaid a rhanddeiliaid, rydyn ni'n parhau i ymateb i rai o'r heriau mwyaf erioed y mae'r system gymwysterau wedi'u hwynebu.

Rydyn ni wedi dysgu llawer o'r pandemig ac yn fwy cyffredinol o'n gweithgareddau rheoleiddio a diwygio eang. Dyma'r amser i bwyso a mesur ac edrych tua'r dyfodol.

Byddwn ni'n dysgu o'n blynyddoedd cynnar, gan ddatblygu ein partneriaethau a'n gwaith ymgysylltu ymhellach, a meddwl yn ofalus ac yn ddwfn am rôl cymwysterau cyffredinol a galwedigaethol yng Nghymru yn y dyfodol. Byddwn ni'n parhau â'r ymrwymiad hwn i ddysgu drwy werthuso effaith ein gwaith yn barhaus.

Mae'n gyfnod hollbwysig, gyda datblygiadau polisi pwysig, gan gynnwys cyflwyno'r Cwricwlwm i Gymru. Mae mwy a mwy o ffocws ar sgiliau a rôl cymwysterau galwedigaethol i ddarparu dewis a chefnogi'r economi, ynghyd â chyfleoedd a heriau technolegau digidol. Mae gennym ni hefyd fwy o ymwybyddiaeth o les dinasyddion a rôl cymwysterau wrth gefnogi blaenoriaethau cenedlaethol fel **Cymraeg 2050**.

Rydyn ni'n croesawu cyhoeddiad Llywodraeth Cymru y bydd yn gweithio gyda'r **Comisiwn Addysg Drydyddol ac Ymchwil** newydd i ddatblygu llwybrau cynnydd clir a chydlynol ar gyfer dysgwyr. Yn ogystal, rydyn ni'n awyddus i chwarae rhan lawn wrth gefnogi'r uchelgeisiau sydd wedi'u nodi yng **Nghytundeb Cydweithio 2021**.

Mae'r strategaeth hon, sydd wedi'i datblygu gyda chefnogaeth rhanddeiliaid allweddol, yn cyflwyno'r weledigaeth hirdymor ar gyfer sut y bydd ein gwaith yn esblygu gyda phartneriaid. Mae'n amlinellu sut y byddwn yn parhau i sicrhau bod dysgwyr yng Nghymru yn gallu dewis o blith cymwysterau y mae modd ymddiried ynddynt, sy'n cael eu gwerthfawrogi ac sy'n gludadwy yn fyd-eang, sy'n berthnasol, yn deg, yn hyblyg ac yn ddwyieithog.

Cyflwyniad

Mae Cymwysterau Cymru bellach yn rhan annatod o system addysg a hyfforddiant Cymru, ar ôl datblygu ffyrdd newydd ac arloesol o gyflawni ein dyletswyddau fel rheoleiddiwr cyfrifol.

Ers ein sefydlu, rydyn ni wedi:

- sefydlu ein swyddogaethau rheoleiddio craidd a'r fframwaith rydyn ni'n ei ddefnyddio i reoleiddio cyrff dyfarnu cydnabyddedig
- cwblhau gwaith i ddiwygio cymwysterau TGAU, UG a Safon Uwch a goruchwylio dyfarniad cyntaf y cymwysterau newydd hyn, gan ddechrau yn 2017 – roedd y cymwysterau diwygiedig hyn yn cynrychioli'r cam arwyddocaol cyntaf tuag at system gymwysterau unigryw i Gymru
- sefydlu dull 'adolygu'r sector', gan gynnwys adolygiadau ar gyfer:

  - Iechyd a Gofal Cymdeithasol a Gofal Plant (wedi'i gwblhau)
  - Adeiladu a'r Amgylchedd Adeiledig (wedi'i gwblhau)
  - Technoleg Ddigidol (wedi'i gwblhau)
  - Peirianneg, Gweithgynhyrchu Uwch ac Ynni (wedi'i gwblhau)
  - Teithio, Twristiaeth, Lletygarwch ac Arlwyo (cyhoeddi yn 2023)
  - Chwaraeon a Gwasanaethau Cyhoeddus (wedi'i gwblhau)
  - Amaethyddiaeth, Garddwriaeth a Gofal Anifeiliaid (wedi'i gwblhau)
  - Busnes, Gweinyddu a Manwerthu (ar y gweill)
  - Celf, Cyfryngau Creadigol a'r Cyfryngau (dechrau yn 2023)
  - Gwallt a Harddwch (dechrau yn 2023/24)

O ganlyniad i'r adolygiadau hyn, rydyn ni wedi:

- comisiynu cymwysterau newydd Gwnaed-i-Gymru mewn Iechyd a Gofal Cymdeithasol, a Gofal Plant, ac mewn Adeiladu a Pheirianneg Gwasanaethau Adeiladu
- goruchwylio datblygiad cymhwyster TGAU ac UG/Safon Uwch newydd mewn Technoleg Ddigidol
- rhannu adborth gwerthfawr gan randdeiliaid i gyrff dyfarnu, y maen nhw wedi'i ddefnyddio i ddiweddaru, ychwanegu at neu ddisodli eu cymwysterau, a sicrhau bod mwy o gymwysterau ar gael yn ddwyieithog

Ochr yn ochr â'r gwaith hwn rydyn ni wedi dechrau rhaglen waith sylweddol i ail-ddychmygu cymwysterau TGAU a sefydlu amrywiaeth gydlynol o gymwysterau cynhwysol ar gyfer dysgwyr rhwng 14 ac 16 oed, yn unol â dibenion Cwricwlwm i Gymru.

Rydym wedi dysgu llawer o'r gwaith hwn ac wedi nodi **pum** thema allweddol a fydd yn sail i'n gwaith yn y dyfodol:

Gwnaed-i-Gymru

Rydyn ni'n cydnabod bod gan Gymru nodweddion unigryw sydd angen eu hystyried yn ofalus yn ein holl waith, gan gynnwys:

- cyflwyno'r Cwricwlwm i Gymru
- yr angen am gynnig gweithredol o gymwysterau dwyieithog
- sefydlogrwydd yn yr amrywiaeth o gymwysterau sydd ar gael i ddysgwyr, yn enwedig o ystyried newidiadau polisi sy'n datblygu mewn rhannau eraill o'r DU
- galw am amrywiaeth eang o gymwysterau galwedigaethol, gan gynnwys llawer sydd â nifer isel o ddysgwyr
- gofynion deddfwriaethol ar wahân mewn materion sydd wedi'u datganoli

Dull deinamig

Mae cymwysterau'n chwarae rhan bwysig mewn addysg ac mae'n rhaid iddyn nhw barhau i fod yn gyfoes ac yn berthnasol i gymdeithas fodern. Yn hanesyddol, mae'r broses o ddiwygio cymwysterau wedi bod yn un o ddiwygiadau mawr cyfnodol, yn aml gyda seibiau hir rhwng iteriadau. Gall hyn arwain at gymwysterau'n mynd yn hen ffasiwn neu'n groes i ddisgwyliadau.

Rydyn ni'n credu mewn dull deinamig, lle gall cymwysterau addasu a newid dros amser i adlewyrchu cyfleoedd neu anghenion newydd wrth iddyn nhw godi. Rydyn ni hefyd yn cydnabod efallai na fydd bob amser yn hylaw i bob uchelgais gael ei gyflawni mewn un cam, felly bydd angen proses o esblygiad i wneud newidiadau sy'n gweithio i bawb dan sylw.

Rheoli newid

Rydyn ni bellach wedi arwain y gwaith o ddiwygio llawer o gymwysterau ac wedi dysgu pa mor bwysig yw hi i'r system ymwneud â dylunio a datblygu cymwysterau mewn proses o gyd-lunio a pharatoi ar gyfer newid cymwysterau ac ymrwymo iddo.

Mae newid llwyddiannus yn gofyn i'r system addysg a hyfforddiant ddod at ei gilydd ar y cyd a chyfathrebu'n effeithiol. Rydym wedi ymrwymo i chwarae ein rhan yn y cydweithio hwnnw a meithrin y perthnasoedd sydd eu hangen er mwyn i bawb allu chwarae eu rhan yn llwyddiannus mewn newid.

Asesu arloesol

Mae moderneiddio asesu wedi bod yn bwnc trafod yn y DU ers blynyddoedd lawer, ond mae'r cynnydd wedi bod yn araf. Mae gan Gymru gyfle unigryw i ddatblygu'r seilwaith digidol sydd ei angen i gefnogi mathau newydd ac arloesol o asesu, y mae modd eu defnyddio i ehangu dulliau asesu er mwyn mynd i'r afael ag amrywiaeth ehangach o alluoedd a doniau dysgwyr.

Rydyn ni'n cydnabod bod cyfyngiadau a phryderon wrth symud i ddulliau mwy digidol o asesu, ond gydag ymagwedd sector cyfan at newid, gallwn ni gefnogi'r daith i asesiadau sy'n gydnaws â chymdeithas gynyddol ddigidol.

Lles dysgwyr

Mae cymwysterau'n bwysig a rhaid diogelu eu gwerth ar gyfer y dysgwyr maen nhw'n ceisio eu gwasanaethu. Mae lles dysgwyr wrth wraidd ein penderfyniadau. Er mwyn helpu i gyflawni hyn, rydyn ni'n cynnwys dysgwyr ac yn ymgysylltu'n uniongyrchol â nhw wrth wneud penderfyniadau. Rydyn ni'n cydnabod bod cymwysterau lle mae llawer yn y fantol yn gallu peri straen, ac yn gallu bod yn heriol, hefyd eu bod nhw'n ysgogi dysgu ac yn meithrin gwytnwch.

Ein pwrpas

Fel y corff cenedlaethol sy'n gyfrifol am reoleiddio cymwysterau, mae gennym ddau brif nod y mae'n rhaid i'n holl waith ganolbwyntio arnyn nhw:

- sicrhau bod cymwysterau, a system gymwysterau Cymru, yn effeithiol ar gyfer diwallu anghenion rhesymol dysgwyr
- hybu hyder mewn cymwysterau ac yn system gymwysterau Cymru.

Rydym ni wedi ymrwymo i osod dysgwyr wrth wraidd popeth rydyn ni'n ei wneud.

Mae Deddf Cymwysterau Cymru 2015 yn nodi wyth 'mater' y mae'n rhaid i ni eu hystyried wrth gyflawni ein rôl.

Mae'r rhain yn ymwneud â:

Hyrwyddo twf cynaliadwy yn economi Cymru	Hyrwyddo a hwyluso'r defnydd o'r **Gymraeg**	**Ystod a natur** y cymwysterau sydd ar gael, a sut maen nhw'n cael eu hasesu	**Gofynion** cyflogwyr, sefydliadau addysg uwch a'r proffesiynau
Pa mor **gyfredol** yw cymwysterau	Sut mae cymwysterau'n c**ymharu** â'r rhai sy'n cael eu dilyn mewn gwledydd eraill	**Effeithlonrwydd a gwerth am arian** cymwysterau	**Rolau cymharol** cyrff dyfarnu, darparwyr dysgu, Cymwysterau Cymru ei hun a Llywodraeth Cymru

Ein ffyrdd o weithio

Mae sawl dyletswydd, polisi a dull gweithredu allweddol yn sail i'n gwaith:

- rydyn ni'n gweithredu o fewn y fframwaith polisi sydd wedi'i nodi yn Neddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol, gan weithio ar y cyd a **mabwysiadu ymagwedd hirdymor ac ataliol at gynaliadwyedd**
- rydym yn ymgorffori ein dyletswyddau **cydraddoldeb** sector cyhoeddus wrth i ni gynllunio a gwneud penderfyniadau
- rydym yn gweithredu o fewn ein **dull rheoleiddio** ein hunain, ac yn ymdrechu i fod yn gymesur, yn gyson, yn atebol, yn dryloyw ac yn dargedig yn ein camau gweithredu
- trwy ein strategaeth **Dewis i Bawb**, ein nod yw cynyddu argaeledd cymwysterau cyfrwng Cymraeg i gefnogi uchelgeisiau Cymraeg 2050 Llywodraeth Cymru
- mae ein dull cydweithredol a deinamig o ymdrin â chyfathrebu ac ymgysylltu yn sail i'n cyfrifoldeb i sicrhau hyder y cyhoedd
- rydyn ni'n **cydweithio gyda phartneriaid** ar draws y system addysg a hyfforddiant i gael eu barn ar newid a hyrwyddo cydlyniant mewn llwybrau cynnydd
- rydyn ni'n gwerthfawrogi ac yn meithrin ein gweithwyr fel sydd wedi'i nodi yn ein **strategaethau corfforaethol**

Wrth bennu ein blaenoriaethau strategol ar gyfer y pum mlynedd nesaf rydyn ni'n cydnabod bod peth o'n gwaith yn orfodol ac nid yn ôl ein disgresiwn. Mae hyn yn cynnwys, er enghraifft, ein dyletswyddau sy'n ymwneud â rheoleiddio'r system gymwysterau fel sydd wedi'u nodi yn Neddf Cymwysterau Cymru a'n cytundeb fframwaith gyda Llywodraeth Cymru, neu ein hymrwymiadau fel cyflogwr cyfrifol. Felly, gyda hyn mewn golwg mae'r strategaeth hon yn canolbwyntio ar ein gwaith i adolygu a diwygio cymwysterau.

Ein gweledigaeth

Ein gweledigaeth yw y gall dysgwyr yng Nghymru ddilyn y cymwysterau sydd eu hangen arnyn nhw i'w helpu i symud ymlaen mewn bywyd, dysgu a gwaith.

Rydyn ni am weld system gymwysterau sy'n cynnwys:

Amrywiaeth gynhwysol a chynaliadwy o gymwysterau perthnasol	**Asesiadau modern a chadarn sy'n canolbwyntio ar y dysgwr**	**Cyfleoedd i gyflwyno profiadau dysgu o safon**
Asesu yn y Gymraeg a'r Saesneg	**Cofnod ystyrlon a theg o gyflawniad**	**Seilwaith arbenigol, integredig, effeithlon a chynhwysol**

Ein cyd-destun allanol

Wrth i ni weithio tuag at ein gweledigaeth, rydyn ni'n gwbl ymwybodol o'r dylanwadau allanol a fydd yn effeithio ar ein gwaith – fel cyfleoedd y mae modd manteisio arnyn nhw a chyfyngiadau y gall fod angen i ni weithio oddi mewn iddyn nhw.

Pandemig COVID-19

Ynghyd â chymaint o'n ffordd fodern o fyw, mae pandemig COVID-19 wedi effeithio'n fawr ar y system addysg a chymwysterau. Mae byd cymwysterau ac asesu wedi bod yn destun protest genedlaethol a thrafodaeth eang. Fe wnaeth digwyddiadau 2020 a 2021 amlygu breuder elfennau o'n systemau sefydledig a'r angen am fwy o wydnwch yn y ffordd y caiff cymwysterau cenedlaethol eu hasesu.

Mae effeithiau'r pandemig ar y system gymwysterau wedi bod yn niferus ac yn bellgyrhaeddol. O ran yr angen i asesu dysgwyr yn uniongyrchol, mae'r proffesiwn addysgu wedi wynebu pwysau digynsail. Mae cyrff dyfarnu wedi wynebu pwysau ariannol eithriadol yn wyneb costau ychwanegol ac yn aml llai o incwm ac mae'r baich rheoleiddio sy'n gysylltiedig â gwneud addasiadau priodol wedi bod yn heriol. Yn anad dim, mae pobl ifanc wedi byw trwy gyfnodau trafferthus tu hwnt yn ystod cyfnod hollbwysig yn eu datblygiad personol ac addysgol.

Bydd yn cymryd amser i'r system adfer, ac mae angen i ni gydnabod hynny yn ystod cyfnod y strategaeth hon.

Cyfrwng Cymraeg

Wrth i addysg cyfrwng Cymraeg barhau i ehangu mae yna alw cynyddol am gymwysterau sy'n cael eu hasesu yn Gymraeg. Byddwn ni'n cefnogi strategaeth **Cymraeg 2050** Llywodraeth Cymru ac yn galluogi dysgwyr i gael cyfle cyfartal i ddilyn cymwysterau yn eu dewis iaith. Pan fydd cymwysterau'n rhai Gwnaed-i-Gymru, byddan nhw ar gael yn ddwyieithog o'r dechrau.

Wrth i ni barhau gyda'n hagenda ddiwygio, bydd cyfran y cymwysterau sydd ar gael yn ddwyieithog yn tyfu. Pan fo nifer y dysgwyr sy'n dilyn cymhwyster yn isel, mae hyn yn fwy heriol, ond byddwn ni'n parhau i adeiladu ar ein llwyddiant wrth fynd ati i annog a chefnogi cyrff dyfarnu, gan gynnwys drwy arian grant, i sicrhau bod eu cymwysterau ar gael yn Gymraeg. Rydyn ni'n nodi ein gwaith yn y maes hwn yn fanylach yn **Dewis i Bawb**, ein strategaeth ar wahân ar gyfer y Gymraeg.

Rydyn ni wedi sefydlu partneriaeth strategol newydd gyda'r Coleg Cymraeg Cenedlaethol, a fydd yn adeiladu ymagwedd gryfach ar draws y sector i ddatblygu cymwysterau cyfrwng Cymraeg a hyrwyddo synergeddau yng ngwaith y ddau sefydliad.

Cwricwlwm i Gymru

Mae ysgolion bellach wedi dechrau addysgu'r Cwricwlwm i Gymru, a lansiwyd ar ôl sawl blwyddyn o waith dwys, dan arweiniad Llywodraeth Cymru. Bydd y dysgwyr cyntaf sy'n dilyn y cwricwlwm newydd mewn ysgolion uwchradd yn gorffen addysg orfodol yn 2027.

Mae ein prosiect **Cymwys ar gyfer y Dyfodol** yn cynrychioli'r cyfle mwyaf ers mwy na chenhedlaeth ail-lunio ac ail-ddychmygu'r cymwysterau y mae pobl ifanc yn eu cymryd yn 16 oed - nid yn unig cymwysterau TGAU, ond hefyd yr ystod ehangach o gymwysterau a gymerir mewn ysgolion a lleoliadau eraill.

Mae llawer o safbwyntiau gwahanol ac anghyson yn aml ar sut y gall y cymwysterau hyn newid, ond rydyn ni wedi ymrwymo i weithio ar y cyd ac mae ein dull cyd-greu yn helpu i ffurfio consensws ar y ffordd orau i symud ymlaen. Dyma gyfle cyffrous i fod yn flaengar.

Cynnig ôl-16

Mae cynnig cymwysterau ôl-16 Cymru'n gymhleth. Mae nifer o gymwysterau sydd wedi'u llunio'n benodol i ddiwallu anghenion dysgwyr yng Nghymru, gan gynnwys cymwysterau UG/Safon Uwch a chymwysterau galwedigaethol a ddeilliodd o'n rhaglen o adolygiadau sector.

Fodd bynnag, yn hanesyddol rydyn ni wedi bod yn ddibynnol ar gymwysterau sydd ar gael ledled y DU - ond sydd wedi'u datblygu'n bennaf i ddiwallu anghenion dysgwyr yn Lloegr. Lle bo'n briodol, rydyn ni'n rheoleiddio'r cymwysterau hyn ar y cyd â'n cyd-reoleiddwyr - Ofqual yn Lloegr a CCEA Regulation yng Ngogledd Iwerddon.

Mae ymagweddau at addysg a chymwysterau yn dod yn fwyfwy amrywiol ar draws awdurdodaethau'r DU. Rydyn ni'n ymgysylltu'n rheolaidd â chyrff dyfarnu i drafod effaith bosibl unrhyw benderfyniadau polisi ar ddarpariaeth yng Nghymru.

Ar hyn o bryd mae cymwysterau galwedigaethol ôl-16 yn Lloegr yng nghanol rhaglen o ddiwygio helaeth. Rydyn ni wrthi'n monitro goblygiadau penderfyniadau polisi Lloegr ar argaeledd parhaus cymwysterau i ddysgwyr yng Nghymru, a lle mae angen gwneud hynny, rydyn ni wedi ymrwymo i ddefnyddio'r ysgogiadau rheoleiddio sydd ar gael inni i sicrhau darpariaeth addas.

Mae cyrff dyfarnu wedi ymateb i'r newidiadau mewn polisi yn Lloegr trwy ein sicrhau eu bod wedi ymrwymo i ddod o hyd i atebion i ddiwallu anghenion dysgwyr yng Nghymru. Lle y gall cymwysterau fod yn cael eu tynnu'n ôl, bydd angen i ni sicrhau bod rhai eraill yn cymryd eu lle.

Mae ein rhaglen adolygu a diwygio wedi dangos bod amrywiaeth o ffyrdd io sicrhau ystod briodol o gymwysterau galwedigaethol i Gymru. Lle mae'n ymarferol i gorff dyfarnu ddatblygu cymhwyster Gwnaed-i-Gymru pwrpasol, byddwn ni'n ystyried defnyddio ein pwerau comisiynu i sicrhau corff dyfarnu i wneud hynny a chyfleu newid yn effeithiol er mwyn i ddysgwyr allu cymryd y camau cynnydd o'u dewis. Weithiau mae angen i ni feddwl yn fwy hyblyg am sut i ddod o hyd i'r ateb cywir. Rydyn ni'n parhau i fod yn gwbl ymrwymedig i sicrhau bod cynnig cyflawn a chydlynol o gymwysterau galwedigaethol yn cael ei ddarparu i ddysgwyr yng Nghymru.

Yn 2023 mae Llywodraeth Cymru yn bwriadu sefydlu Comisiwn **Addysg Drydyddol ac Ymchwil** newydd. Rydyn ni'n edrych ymlaen at y cyfle i ffurfio perthynas adeiladol a chydweithredol â'r corff newydd. Byddwn ni'n awyddus i sefydlu paramedrau clir ar gyfer ein priod gyfrifoldebau ac i nodi sut y byddwn ni'n gweithio gyda'n gilydd yn fwyaf effeithiol mewn meysydd o ddiddordeb cyffredin, fel addysg ôl-16 a phrentisiaethau.

Cyflawni digidol

Cyn y pandemig, yn ein hadolygiad sector **Digidol i'r Dyfodol** (a gyhoeddwyd), gwnaethom nodi: *"Mae'n anodd dychmygu byd heb dechnoleg ddigidol. Fel rhan annatod o fywydau pobl, mae'n datblygu'n barhaus ac yn gyflym."*

Mae'r cyfyngiadau symud wedi cynyddu cyflymder y newid. Mae athrawon a dysgwyr wedi dod yn fwy medrus wrth ddefnyddio technoleg ar gyfer dysgu, ond eto mae llawer o fyd cymwysterau yn parhau i fod yn seiliedig ar bapur.

Mae'n anodd rhagweld y bydd hyn yn parhau i fod yn wir yn y tymor hwy, felly rydyn ni'n benderfynol o weithio gyda'r system addysg a hyfforddiant i oresgyn yr heriau a gwireddu manteision dulliau asesu cadarn a hylaw ehangach y mae galluoedd digidol yn eu cynnig.

Ein dull o gyflwyno

Mae ein gweledigaeth yn uchelgeisiol a bydd angen ffocws i'w chyflawni. Rydyn ni wedi nodi pedair blaenoriaeth strategol ar gyfer y blynyddoedd i ddod, a bydd pob un ohonyn nhw'n cael eu hategu gan ein gweithlu proffesiynol yn, cynnal ffocws ar gydweithio ar draws y sector addysg a'u llywio gan dystiolaeth ymchwil.

Cynnig cyn-16 cydlynol a chynhwysol

Rydyn ni'n gwneud cynnydd da gyda'n prosiect Cymwys ar gyfer y Dyfodol wrth i ni weithio tuag at gyflwyno, o 2025 ymlaen, gymwysterau newydd ar gyfer dysgwyr rhwng 14 ac 16 oed, i ategu'r Cwricwlwm i Gymru. Rydym yn gweithio'n adeiladol ar y cyd ag athrawon ac arbenigwyr i ail-ddychmygu cymwysterau TGAU ac i ail-lunio'r cynnig cymwysterau ehangach.

Mae hon yn rhaglen ddiwygio sylweddol ac mae llawer eto i'w wneud. Rydyn ni'n gweithio'n agos gyda Llywodraeth Cymru, CBAC ac eraill i gynllunio rhaglen sylweddol o reoli newid fel y bod modd i bawb yn y system chwarae eu rhan yn effeithiol.

Dros y pum mlynedd nesaf byddwn ni'n gwneud y canlynol:

• gweithio gyda CBAC, ymarferwyr a rhanddeiliaid i gyd-lunio'r gwaith o ddylunio cyfres newydd o gymwysterau Gwnaed-i-Gymru i **ddisodli'r ystod bresennol o gymwysterau TGAU** ***(2022-2023)***
• sicrhau bod **cynnig cydlynol a chynhwysol** o gymwysterau ar gael i ddiwallu anghenion pob dysgwr yn y grŵp oedran hwn ***(2027)***
• gan ddilyn ein themâu strategol o arloesi ac esblygiad, dechrau sgwrs genedlaethol i ddatblygu **gweledigaeth tymor hwy** ar gyfer y genhedlaeth nesaf o gymwysterau a gaiff eu cymryd gan ddysgwyr 14-16 oed ***(2024-2025)***
• hyrwyddo **dulliau modern ac arloesol o asesu** ***(parhaus)***
• creu gofod ac amser ar gyfer profiadau dysgu o safon drwy **sicrhau bod asesiadau yn gymesur, yn briodol ac yn hylaw**, a hyrwyddo cyfleoedd ar gyfer **profiadau dysgu cadarnhaol** sy'n cefnogi **lles dysgwyr a'u dyheadau ar gyfer y dyfodol** ***(2022-2025)***
• sicrhau bod y cynnig ehangach o gymwysterau, yn ogystal â chymwysterau TGAU, ar gael trwy **gyfrwng y Gymraeg neu'r Saesneg** ***(2027)***
• gweithio gyda Llywodraeth Cymru i ddylanwadu ar ei **hymagwedd at drefniadau ar gyfer gwerthuso, gwella ac atebolrwydd ysgolion** er mwyn sicrhau bod y cymwysterau mor effeithiol â phosibl a'u bod yn cefnogi nodau ehangach y Cwricwlwm i Gymru ***(2022-2023)***
• gan gydweithio gydag eraill, goruchwylio'r gwaith o ddatblygu a gweithredu rhaglen effeithiol o **reoli newid** i gefnogi ysgolion i weithredu'r cymwysterau newydd ***(parhaus)***
• cyfathrebu ac ymgysylltu â dysgwyr, rhieni, colegau, darparwyr dysgu seiliedig ar waith, prifysgolion a chyflogwyr i feithrin **ymwybyddiaeth** o'r cymwysterau newydd a **hyder** ynddyn nhw ***(parhaus)***

Cynnig ôl-16 cadarn o ansawdd uchel

Rydyn ni bob amser wedi blaenoriaethu'r gwaith o adolygu a diwygio cymwysterau galwedigaethol. Ers 2015, rydyn ni wedi cyhoeddi ac wedi gweithredu ar bedwar adolygiad sylweddol yn y sector a dau adolygiad sector cyflym, llai manwl.

Rydyn ni wedi cwblhau dwy raglen ddiwygio fawr lle gwnaethom ni gomisiynu cyfresi newydd o gymwysterau Gwnaed-i-Gymru. Rydyn ni wedi arwain y gwaith o gyflwyno cymwysterau Safon Uwch newydd mewn Technoleg Ddigidol a'r Amgylchedd Adeiledig (gyda chymwysterau TGAU ategol i fod yn sylfaen iddyn nhw) ac wedi goruchwylio gwelliannau i gymwysterau presennol eraill mewn ymateb i'n hadolygiadau. Byddwn yn cyhoeddi ein hadolygiad Teithio, Twristiaeth, Lletygarwch ac Arlwyo ddechrau 2023, gan gynnwys unrhyw gynigion ar gyfer diwygio, a bydd ein rhaglen o adolygiadau yn para tan 2024.

Wrth i ni baratoi i roi cymwysterau newydd ar gyfer dysgwyr 14 i 16 oed ar waith, bydd ein meddyliau'n troi, yn gynyddol, at y llwybrau cynnydd ar gyfer y dysgwyr hynny – mewn perthynas â Safon Uwch a'r ystod lawnach o gymwysterau a gymerir gan ddysgwyr ôl-16.

Gyda'r heriau ychwanegol i'r cymwysterau ôl-16 a gynigir yn sgil newidiadau mewn awdurdodaethau eraill, mae angen inni gryfhau ymhellach ein hymagwedd strategol at gymwysterau ar gyfer y dysgwyr hyn ac ar gyfer y rhai ar brentisiaethau er mwyn sicrhau bod gan bob dysgwr ddewis priodol a gwerthfawr o gymwysterau gyda threfniadau asesu cadarn sydd, ar gael yn Gymraeg ac yn Saesneg.

Byddwn ni'n ymgysylltu'n helaeth â'r sector addysg ôl-16 a chyrff dyfarnu i nodi ystod o lwybrau i sicrhau ystod gynhwysfawr ac effeithiol o gymwysterau ar gyfer pob dysgwr ôl-16.

Dros y pum mlynedd nesaf byddwn ni'n gwneud y canlynol:

• cwblhau ein rhaglen o **adolygiadau sector** a dechrau gwerthuso manteision ac effaith ein diwygiadau ***(2022-2024)***
• gweithio gyda Llywodraeth Cymru, y Comisiwn Addysg Drydyddol ac Ymchwil newydd, cyrff dyfarnu ac eraill i sicrhau a chryfhau **ystod gynaliadwy o gymwysterau cadarn** ar gyfer dysgwyr a phrentisiaid ôl-16 ***(2022–2024)***
• dechrau **adolygiad o gymwysterau Safon Uwch** yng Nghymru er mwyn sicrhau bod perthynas glir rhwng cymwysterau 14-16 a dilyniant i addysg uwch ***(2024-2025)***
• cwblhau ein hadolygiad ac, fel y bo'n briodol, diwygio cymwysterau **Sgiliau Hanfodol Cymru**, gan sicrhau bod dull cydgysylltiedig a chadarn o asesu llythrennedd, rhifedd a sgiliau perthnasol eraill i ddiwallu anghenion dysgwyr ***(2026)***
• gweithio gyda chyrff dyfarnu i gynyddu'r ystod o gymwysterau sydd ar gael **yn y Gymraeg a'r Saesneg** fel bod nifer y dysgwyr sy'n gallu cael mynediad at gymwysterau yn y naill iaith neu'r llall yn cynyddu'n sylweddol ***(parhaus)***
• hyrwyddo **dulliau modern, cadarn ac arloesol o asesu** ***(parhaus)***

Moderneiddio asesu

Yn sail i'n dull o gyflawni ein gweledigaeth mae'r awydd i sicrhau bod dysgwyr Cymru yn elwa ar system asesu sydd ymhlith y mwyaf arloesol a mwyaf modern yn y byd – gan fanteisio i'r eithaf ar ystod eang o dechnegau asesu a meithrin hyblygrwydd o ran sut a phryd y mae dysgwyr yn cael eu hasesu.

Dros y pum mlynedd nesaf byddwn ni'n gwneud y canlynol:

• creu **tîm moderneiddio asesu** i hyrwyddo'r flaenoriaeth hon o fewn y sefydliad a ledled Cymru ***(2022)***
• **nodi cyfleoedd ar gyfer newid** drwy ddadansoddi dulliau presennol o asesu a datblygu dealltwriaeth o'r manteision posibl a all ddod yn sgil dulliau arloesol o asesu, gan gynnwys defnyddio technoleg ddigidol wrth asesu ***(ffocws 2022-2024, yna'n barhaus)***
• gweithio gydag arbenigwyr ac ymarferwyr mewn canolfannau a chyrff dyfarnu i ystyried **sut y gellir diweddaru arferion asesu** fel eu bod yn sicrhau'r cydbwysedd gorau rhwng bod yn ddeniadol i ddysgwyr ac yn hylaw i ganolfannau a'r dibynadwyedd a'r dilysrwydd a ddisgwylir gan gyfres o gymwysterau cenedlaethol ***(parhaus)***
• datblygu ymhellach ein gwybodaeth am y ffactorau llwyddiant hanfodol ar gyfer defnyddio technoleg wrth asesu yn llwyddiannus a gweithio gydag eraill i liniaru yn erbyn y risgiau a'r heriau sydd ynghlwm wrth fabwysiadu systemau newydd ***(ffocws 2022-2024, yna'n barhaus)***
• datblygu cynllun gweithredu realistig ond uchelgeisiol ar gyfer moderneiddio asesiadau ***(2023-2024, yna'n barhaus)***
• gwreiddio ein dull o foderneiddio asesu ym mhob rhaglen ddiwygio ***(parhaus)***
• creu amgylchedd rheoleiddio lle mae modd i arloesedd mewn asesu ffynnu a chael ei brofi ond lle gellir ei werthuso hefyd fel y gallwn ni a chyrff dyfarnu ddysgu'n barhaus am arferion gorau ***(2023–yna'n barhaus)***

Datblygu system gynaliadwy

Bob blwyddyn rydyn ni'n cefnogi'r system gymwysterau drwy ddyfarnu grantiau. Mae'r rhan fwyaf o'r cyllid hwn yn rhoi arian i gyrff dyfarnu ddarparu asesiadau cyfrwng Cymraeg, er ein bod hefyd wedi darparu grantiau i gefnogi'r gwaith o gyflwyno cymwysterau newydd ac wedi'u diwygio.

Mae'r grantiau rydyn ni'n eu dyfarnu yn cynrychioli cyfran sylweddol o'n gwariant, felly mae'n bwysig ein bod ni'n adolygu eu gwerth am arian er mwyn gwneud yn siŵr ein bod ni'n sicrhau'r gwerth ychwanegol gorau i ddysgwyr, a'r system gymwysterau.

Yng nghyd-destun yr heriau a gyflwynir i'r system gymwysterau gan hyfywedd darparu cymwysterau i niferoedd bach o ddysgwyr, mae angen inni ystyried a yw ein dull o ddarparu cyllid grant i gyrff dyfarnu yn ddigonol i ategu'r angen i sicrhau'r cynnig cymwysterau yng Nghymru. Byddwn ni'n ystyried y ffordd orau o ddyrannu'r adnoddau sydd gennym ni - ac a oes angen i ni sicrhau adnoddau pellach i ategu'r rhain os ydym ni am sicrhau bod y system gymwysterau yn wirioneddol effeithiol wrth ddiwallu anghenion dysgwyr.

Dros y pum mlynedd nesaf byddwn ni'n gwneud y canlynol:

• **gwerthuso effeithiolrwydd** gwariant hanesyddol ar draws ein portffolio grantiau ***(2023-2024)***
• ystyried sut y gallwn ni sicrhau'r **gwerth gorau am arian** o'n cyllideb grantiau ***(2023-2024)***
• ystyried, mewn trafodaeth â Llywodraeth Cymru, a yw ein **cyllideb grantiau gyffredinol** yn ddigonol i gefnogi'r gwaith y mae angen i eraill ei wneud, yng nghyd-destun penodol diwygio cymwysterau a'r Gymraeg ***(2022-2024)***
• datblygu a gweithredu **rhaglen newydd o gyllid grant** i gefnogi'r gwaith o gyflwyno'r system gymwysterau yn effeithiol ac arloesi yn y maes ***(2024-2025)***

Rydyn ni hefyd yn cefnogi'r system gymwysterau drwy ein gwaith rheoleiddio craidd a thrwy gyhoeddi canllawiau i gyrff dyfarnu ar faterion allweddol, fel darparu cynnig gweithredol o gymwysterau dwyieithog. Byddwn ni'n mynd ati i fonitro'r farchnad cyrff dyfarnu i weld ble mae modd gwneud ymyriadau gan ddefnyddio'r offer rheoleiddio sydd ar gael i ni i wella'r cynnig sydd ar gael er mwyn diwallu anghenion dysgwyr.

Bydd angen i ni ystyried a phwyso a mesur effaith amrywiadau mewn canlyniadau cymwysterau cenedlaethol dros flynyddoedd y pandemig a phennu i ba raddau y mae angen addasu disgwyliadau cenedlaethol ymhellach. Bydd angen i ni hefyd ystyried newidiadau sy'n angenrheidiol i'n fframwaith rheoleiddio i gefnogi diwygiadau i gymwysterau.

Er y bydd cynnydd mewn cymwysterau Gwnaed-i-Gymru, bydd cymwysterau'r DU yn parhau i fod yn rhan o system gymwysterau Cymru. Bydd angen i ni weithio'n agos gyda chyd-reoleiddwyr er mwyn sicrhau bod rheoleiddio yn esblygu i reoli'r baich rheoleiddio ar gyrff dyfarnu a ddiogelu dysgwyr.

Dros y pum mlynedd nesaf byddwn ni'n gwneud y canlynol:

• parhau i ganolbwyntio ar raglen o waith rheoleiddio craidd fel bod modd i ni gyflawni'r canlyniadau rheoleiddio sydd wedi'u cyhoeddi ac er mwyn cefnogi ein prif nodau ***(parhaus)***
• adolygu ein **fframwaith rheoleiddio a'n dull gweithredu** i sicrhau ei fod yn parhau i fod yn effeithiol ar gyfer diwallu anghenion rhesymol dysgwyr ac i hybu hyder mewn cymwysterau, a system gymwysterau Cymru, ac nad yw'n gosod unrhyw rwystrau diangen ***(2024-2025)***
• adolygu'r disgwyliadau rheoleiddio sy'n cael eu gosod ar gyrff dyfarnu er mwyn sicrhau eu bod yn parhau'n **gymesur ac yn briodol** ***(2024-2025)***
• parhau i adolygu **effeithiau'r pandemig** ar ganlyniadau cymwysterau ac, ar gyfer cymwysterau Gwnaed-i-Gymru, pennu'r dull gorau i'w ddefnyddio i sefydlogi'r canlyniadau hynny dros amser ac ar draws canolfannau ***(2022-2024)***
• **monitro'r** broses o gyflwyno cymwysterau diwygiedig i sicrhau eu bod yn cael eu darparu'n ddiogel ac i nodi cyfleoedd i gyrff dyfarnu wella arferion ***(parhaus)***
• parhau i weithio'n agos gyda chyd-reoleiddwyr i sicrhau bod rheoleiddio traws-awdurdodaeth yn esblygu i gefnogi system gymwysterau Cymru ac i helpu i reoli'r baich ar y rhai rydyn ni'n eu rheoleiddio ***(parhaus)***

Casgliad

Bydd y blaenoriaethau strategol hyn, a ategir gan y themâu allweddol sy'n sail i'n gwaith, yn arwain at system gymwysterau gryfach, fwy cadarn a mwy gwydn yng Nghymru sy'n diwallu anghenion cenedlaethau'r dyfodol.

Byddwn ni'n adolygu ein blaenoriaethau strategol yn rheolaidd er mwyn sicrhau eu bod yn ymateb i anghenion sy'n dod i'r amlwg ac yn parhau i fod yn gyson â'r blaenoriaethau polisi addysg sydd wedi'u gosod gan Lywodraeth Cymru, gan gynnwys mentrau penodol fel Adolygiad Cymwysterau Galwedigaethol newydd Llywodraeth Cymru.

Yn ystod ail hanner y ddegawd hon, byddwn ni'n datblygu ac yn nodi ein blaenoriaethau strategol ar gyfer y dyfodol ar gyfer y cyfnod 2027-2032. Erbyn hynny, bydd ein gwaith **Cymwys ar gyfer y Dyfodol** presennol yn dod i ben. Yn ogystal, bydd effaith newidiadau polisi mewn mannau eraill yn y DU yn cael ei deall yn llawn a bydd camau wedi'u cymryd i gynnal cynnig cynaliadwy o gymwysterau i ddysgwyr yng Nghymru.

Rydyn ni'n croesawu adborth parhaus ar y strategaeth hon a'n gwaith ehangach.